Cofnodion Is-Grŵp Ansawdd 17/06/09 – 11.30yb Ystafell Madog, Coleg Llandrillo

Presennol: Gwenan Owain, Coleg Llysfasi (Cadeirydd)
Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Meira Evans, Popeth Cymraeg; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Pam Evans-Hughes, CCiO; Ifor Gruffydd, CCiO; James Nelson, Coleg Llandrillo; Kevern Kerswell, Coleg Iâl; Sian Eirian, CCiO; Haydn Hughes, CCiO; Ellen Roberts, CCiO.

1. **Ymddiheuriadau**

Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Elwyn Hughes, Prifysgol Bangor; Julie Brake, Prifysgol Glyndŵr; Rhianwen Edwards, Coleg Meirion Dwyfor; Diane Martin, Coleg Glannau Dyfrdwy; Sharon Owen, Coleg Menai; Siwan Hywel, CCiO; Jina Gwyrfai, CCiO.

2. **Cofnodion**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 25 Mawrth yn gywir.

3. **Materion yn codi**: -

Pwynt 7 – Mesur Perfformiad – mae Ifor Gruffydd a Gary Smith yn y broses o gynnal cyfarfodydd unigol gyda swyddogion data a CiO darparwyr gyda'r nod o sicrhau data cyson. I'r un perwyl mae APADGOS hefyd yn edrych i mewn i'r modd y cesglir data yn genedlaethol.

- **Hawliau dysgwyr** – mae grwpiau sy'n bodoli'n barod yn cael eu defnyddio i gasglu barn dysgwyr.

Pwynt 12 - Ffurflenni Gwerthuso Myfyrwyr - cafodd y syniad o ddefnyddio system unffurf megis QDP ei wyntyllu yn y cyfarfod diwethaf a thrafodwyd hyn ymhellach yng Nghyfarfod y Grŵp Strategol. Mae hefyd wedi ei godi yn genedlaethol ac yn derbyn ystyriaeth bellach ar hyn o bryd. Mae'r Ganolfan hefyd yn trefnu i gyfarfod hefo QDP er mwyn ystyried priodoldeb defnyddio eu gwasanaeth yn 2009/10.

4. **Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd APADGOS** - 'roedd Haydn Hughes wedi mynychu sesiwn hyfforddi cenedlaethol Arolwg Cymheiriaid ac wedi cyflwyno papur ar sail y sesiwn honno, er sylw'r aelodau. Nid yw'r dyddiad y daw'r fframwaith newydd i rym yn hysbys eto, ond deellir y bydd yn golygu ymrwymiad mawr o ran amser i golegau, mi fydd rhaid hefyd i Estyn ail hyfforddi eu tîm arsylwi. Bydd Estyn yn peilota'r fframwaith newydd yn Abertawe. Oherwydd cynlluniau arsylwi eraill yn yr Hydref, mae'n debygol y bydd ESTYN yn arolygu yng Ngwynedd a Môn ar ôl y Nadolig, ond nid yw'r manylion yn hysbys ar hyn o bryd. Mae'n bur debyg y bydd y Ganolfan yn cael ei harsylwi fel rhanbarth ddiwedd 2010.
Nod y Ganolfan yn ystod y misoedd nesaf yw codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r Ganolfan a chodi'r teimlad fod tiwtoriaid pob sefydliad yn rhan o'r un tîm.

5. **Adroddiadau ESTYN** Cyflwynodd HH adroddiad i'r aelodau ar rai o brif argymhellion adroddiad ESTYN yn dilyn arsylwadau Blaenau Gwent, Mynwy a Chasnewydd. Yn deillio o'r argymhellion mae'r canlynol yn bwyntiau i ni yn y Gogledd weithredu arnynt:

- rhaid datblygu system o fonitro fod pob sefydliad yn sicrhau fod gan bob tiwtor wiriad GCT.
- 'roedd y mwyafrif o 'nodweddion da' y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn ymwneud â dysgu anffurfiol.
- rhaid sicrhau fod CDU yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol

6. **Meincnodi** - Cymaryddion Newydd - o safbwynt CiO, adroddwyd mai data rhanbarth Gwent yn unig sydd wedi bwydo mewn i adroddiad Llywodraeth y Cynulliad ar gymaryddion cenedlaethol yn addysg bellach, ond yn ddiddorol mae'r data yma yn cymharu'n agos â'r darlun cenedlaethol. Nodwyd fod nifer o golegau Addysg Bellach y gogledd yn defnyddio system meincnodi TRIBAL, mae'r data ar gael i APADGOS ac nid oedd yn eglur pam na ellid ei ddefnyddio. Cytunwyd y dylid sicrhau bod data cyflawn CiO yn cael ei gynnwys ar fyrder er mwyn cywiro'r sefylla a hefyd oherwydd mai dyma'r data a ddefnyddir gan Estyn fel sail ar gyfer arolygon.

Ystadegau dysgwyr fesul lefel – cyflwynwyd tabl a oedd wedi ei seilio ar ddata HESA a LLWR a restrai nifer yr ymrestriadau fesul lefel ar gyfer pob Canolfan. Tra fo'r ffigurau'n adlewyrchu'n dda ar y Ganolfan hon, nid oedd yn adlewyrchiad o'r patrwm dilyniant. Nid oeddynt ychwaith yn cynnwys ymrestriadau cyrsiau Hyfedredd Prifysgol Bangor (lefel 4) oherwydd eu bod yn gyrsiau Addysg Uwch. Bydd y Ganolfan yn ceisio sicrhau eglurder gan APADGOS ar bwrpas a defnydd y data yma er mwyn sicrhau defnydd teg a phriodol ohono.

7. **Adroddiad Hunan Asesu a Chynllun Datblygu Ansawdd 2007/2008** - mae'r ddau wedi eu cwblhau a'u cyflwyno yn ddiweddar iawn a disgwylir ymateb erbyn 22 Mehefin 2009. Mae'r Ganolfan yn ddiolchgar iawn i Gwenan Owain am ei chyfraniad gwerthfawr fel cyfaill beirniadol yn y broes o lunio'r ddogfen. Am resymau ymarferol cynigiwyd a derbyniwyd y byddai'r Ganolfan yn cyflwyno ei AHA ym mis Tachwedd o hyn ymlaen. Gan fod AHA'r darparwyr unigol yn bwydo i mewn i AHA'r Ganolfan penderfynwyd y byddai'r Ganolfan yn llunio pro-forma i'w chwblhau gan ddarparwyr erbyn mis Hydref, yn hytrach na bod darparwyr yn cyflwyno AHA sefydliadol. Bydd drafft o'r pro-forma yn cael ei gylchredeg am sylwadau erbyn diwedd Gorffennaf a'r fersiwn derfynol yn cael ei hanfon at ddarparwyr ddechrau Medi. Gofynnwyd a fyddai data cyflawniad ar gael erbyn Tachwedd ac 'roedd y rheolwyr ansawdd a oedd yn bresennol yn hyderus y byddai hynny'n bosib.

8. **Cynllun Datblygu Unigol** - cafodd y Ganolfan gyllid i gynnal sesiwn hyfforddi yn Sir y Fflint a fu yn llwyddiant mawr. 'Roedd ymateb y tiwtoriaid fynychodd yn dangos eu bod wedi cydnabod gwerth y broses. 'Roedd yn amlwg o adborth yr arsylwadau nad oes defnydd effeithiol yn cael ei wneud o CDU yn gyffredinol. Byddwn yn dyfalbarhau â'r ffurflen a ddatblygwyd a bydd y Ganolfan yn rhoi rhagor o hyfforddiant i diwtoriaid cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf ym mis Medi.

9. **Arsylwadau Blynyddol y Ganolfan** - eleni, am y tro cyntaf, bu i'r Ganolfan arsylwi pob tiwtor CiO. Bu hyn yn her sylweddol, ond llwyddwyd i gyflawni'r gwaith a bu yn broses adeiladol. Cyflwynodd Sian Eirian grynodeb o'r adroddiad a oedd ger bron.
Datblygiadau ar gyfer y dyfodol:

- paratoi dau adroddiad ar y tiwtor, un wedi ei ysgrifennu drwy ddefnyddio ieithwedd ESTYN, sydd yn angenrheidiol ar gyfer pwrpas safoni, ac un arall mewn ieithwedd fwy naturiol i'w gyrru at y tiwtor.
- annog pob arsylwr i fynychu'r paneli safoni, 'roedd adroddiadau yn amrywio ar y dechrau a gwelwyd gwella o ganlyniad i fynychu'r paneli safoni.
- gofyn i ddarparwyr greu cynllun gweithredu i diwtoriaid sy'n derbyn graddau 3 neu 4 er mwyn sicrhau fod argymhellion hyfforddi'r adroddiadau yn cael eu gwireddu. Nododd Ifor Gruffydd y byddai hyn yn ofyniad ffurfiol yn 2009/10
- rhoi ystyriaeth i gynnwys 'cynllun gweithredu' fel rhan o'r ffurflen adborth

10. Nid oedd **unrhyw fater arall**

11. **Cyfarfod nesaf:** Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd dair gwaith y flwyddyn (un ym mhob tymor) ar fore Dydd Mercher yng Ngholeg Llandrillo Cymru, Bae Colwyn.

<u>Dyddiadau 2009 /2010</u>

Dydd Mercher, 14eg Hydref 2009

Dydd Mercher, 3ydd Chwefror 2010

Dydd Mercher, 26ain Mai 2010

Minutes of the Quality Sub-group 17/06/09 – 11.30am, Madog Room, Coleg Llandrillo

Present: Gwenan Owain, Coleg Llysfasi (Chair)
Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Meira Evans, Popeth Cymraeg; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Pam Evans-Hughes, WfAC; Ifor Gruffydd, WfAC; James Nelson, Coleg Llandrillo; Kevern Kerswell, Coleg Iâl; Sian Eirian, WfAC; Haydn Hughes, WfAC; Ellen Roberts, WfAC.

1. **Apologies**

Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Elwyn Hughes, Bangor University; Julie Brake, Glyndŵr University; Rhianwen Edwards, Coleg Meirion Dwyfor; Diane Martin, Coleg Glannau Dyfrdwy; Sharon Owen, Coleg Menai; Siwan Hywel, WfAC; Jina Gwyrfai, WfAC.

2. **Minutes**

The minutes of the last meeting, held on 25 March, were confirmed as correct.

3. **Matters Arising** -

Point 7 - Measuring performance - Ifor Gruffydd and Gary Smith are in the process of holding individual meetings with data officers and WfA providers with the aim of securing regular data. With the same aim in mind DCELLS is looking at the way data is collected nationally.
Learners' rights – groups that already exist are being used to obtain the views of learners.
Point 12 - Student Evaluation Forms – the suggestion that a uniform system such as QDP could be used was aired at the last meeting and this was discussed further in the Strategy Group Meeting. This has also been raised nationally and is currently the subject of further consideration. The Centre is also arranging to meet with the QDP in order to consider how appropriate it would be to use their service in 2009/10.

4. **DCELLS Quality and Effectiveness Framework** – Haydn Hughes had attended a Peer Review national training session and had presented a paper on the basis of that session, for the attention of members. The date, when the new framework will come into force, is not yet known but it is understood that it will mean a major time commitment for colleges, and ESTYN will also have to retrain its observation team. ESTYN will pilot the new framework in Swansea. Because of other observation schemes in the autumn, ESTYN will probably hold inspections in Gwynedd and Anglesey after Christmas, but the details are not yet known. It is quite probable that the Centre will be observed as a region at the end of 2010.
The Centre's aim in the course of the months ahead is to raise learners' awareness of the Centre and promote the sense that the tutors in every institution are part of the same team.

5. **ESTYN reports -** HH presented a report to the members on some of the ESTYN report's main recommendations following the observations in Blaenau Gwent, Monmouth and Newport. On the basis of the recommendations, the following are points upon which we should act in North Wales:

- A system has to be developed to monitor that every institution ensures each tutor has a CRB check.
- The majority of the 'good features', to which reference is made in the document, are related to informal learning.
- It is necessary to ensure that the IDP is used in an appropriate way.

6. **Benchmarking -** New comparators – from the standpoint of WfA, it was reported that only the Gwent region data has fed into the Assembly Government report on national comparators in further education but, interestingly, this data closely matches the national picture. It was noted that a number of Further Education colleges in North Wales use the TRIBAL benchmarking system; the data is available to DCELLS and it was not clear why it could not be used. It was agreed that it should be ensured that the full WfA data is included as

a matter of urgency in order to correct the situation and also because this will be the data that ESTYN will use as a basis for inspections.
Learner statistics by level – a table was presented based on HESA and LLWR data that listed the enrolments according to level for every Centre. While the data reflects well on this Centre, it was not a reflection of the progression pattern. They did not include either the enrolments on Bangor University Proficiency courses (level 4) because these were Higher Education courses. The Centre will seek to obtain clarity from DCELLS on the purpose and the use of this data in order to ensure it is used in a fair and appropriate way.

7. **Self-assessment Report and Quality Development Scheme 2007/2008** – both have been completed and submitted very recently and a response is awaited by 22 June 2009. The Centre is very grateful to Gwenan Owain for her valuable contribution as a critical friend in the process of drawing up the document. For practical reasons it was proposed that the Centre would submit its DfTE in November from now on. Because the DfTEs of individual providers feed into the Centre's DfTE it was decided that the Centre would draw up a form to be completed by providers by October, rather than providers submit an institutional DfTE. A draft of the form will be circulated for comments by the end of July and the final version will be sent to providers at the beginning of September. A question was raised whether the completion data would be available by November and the quality managers who were present were confident that it would be possible.

8. **Individual Development Plan** – the Centre received funding to hold a training session in Flintshire that was a great success. The response of the tutors that attended indicated that they acknowledged the value of the process. It was evident from the feedback of the observations that effective use is not being made of the IDP in general. We shall persevere with the form that was developed and the Centre will give tutors further training before the commencement of the next academic year in September.

9. **The Centre's Annual Observations** – this year, for the first time, the Centre observed every WFA tutor. This was a significant challenge, but the work was successfully completed and it was a constructive process. Sian Eirian presented a summary of the report that had been tabled.
Future developments:

- The preparation of two reports on the tutor, one written using ESTYN terminology, that is necessary for standardization purposes, and another in more natural phraseology to be sent to the tutor.
- Every observer to be encouraged to attend the standardization panel; reports varied in the beginning and an improvement was seen as a consequence of attendance at the standardization panels.
- Providers to be asked to draw up an action plan for tutors, that receive grade 3 or 4, in order to ensure that the training recommendations of the reports are implemented. Ifor Gruffydd noted that this would be a formal requirement in 2009/10.
- The inclusion of an 'action plan' to be considered as part of the feedback form.

10. There was **no other business**

11. **Next Meeting:** It was decided to hold meetings three times a year (one in each term) on a Wednesday morning at Coleg Llandrillo Cymru, Colwyn Bay.

2009/2010 Dates

Wednesday, 14th October 2009

Wednesday, 3rd February 2010

Wednesday, 26th May 2010